YSGOL BRYNREFAIL

CWPAN CYMRU dan 18

Ysgol Brynrefail 2 Queen Elizabeth H.S. 1

Yn rownd gogynderfynol Cwpan Cymru, Ysgol Uwchradd Queen Elizabeth, Caerfyrddin oedd y gwrthwynebwyr ar gae'r tîm cartref. Ar gae gydag arwyneb caled dan heulwen lachar mis Mawrth cynnar cafwyd gêm gyffroes a'r ddau dîm yn brwydro'n galed o'r chwiban cyntaf.

A'r tîm cartref yn pwyso hyd gydol y gêm dim ond gwendidau o flaen y gôl rhwystrwyd buddugoliaeth llawer helaethach . Yn y diwedd 2-1 fu'r sgôr terfynol trwy goliau gan Iolo Hughes a Dylan Thomas a'r gôl geidwad Andrew Hughes yn ddiolchgar am help y postyn i gadw allan cic gosb

Hogia Brynrefs -da 'de